OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 8

Ceisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru

**Cyhoeddusrwydd pan fo datganiad amgylcheddol yn cael ei gyflwyno ar ôl y cais cynllunio**

**35.** Mae rheoliad 19 yn gymwys fel pe bai paragraffau (2) a (3) yn darllen—

"(2) Rhaid i'r ceisydd gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r canlynol mewn papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal leol lle mae'r tir wedi ei leoli—

(a) enw'r ceisydd, bod cais yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru am ganiatâd cynllunio a chyfeiriad Gweinidogion Cymru;

(b) y dyddiad y gwnaed y cais;

(c) cyfeiriad neu leoliad a natur y datblygiad arfaethedig;

(d) bod copi o'r cais, unrhyw blan a dogfennau eraill sy'n mynd ynghyd ag ef, a chopi o'r datganiad amgylcheddol ar gael i aelodau'r cyhoedd edrych arnynt ar bob adeg resymol;

(e) cyfeiriad yn yr ardal leol lle mae'r tir wedi ei leoli lle mae'r dogfennau hynny ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt, a'r dyddiad olaf y maent ar gael i'w gweld (sydd yn ddyddiad nad yw'n llai na 30 o ddiwrnodau yn ddiweddarach na'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad);

(f) manylion gwefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan, lle gellir gweld y datganiad amgylcheddol a dogfennau eraill, a'r dyddiad diweddaraf y byddant ar gael i'w cyrchu (sef dyddiad nad yw'n llai na 30 o ddiwrnodau yn ddiweddarach na'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad);

(g) cyfeiriad (pa un a yw yr un cyfeiriad a roddir o dan is-baragraff (e) ai peidio) yn yr ardal leol lle mae'r tir wedi ei leoli lle gellir cael copïau o'r datganiad;

(h) y gellir cael copïau yno cyhyd â bod rhai yn dal ar gael;

(i) os codir tâl am gopi, swm y tâl;

(j) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ynglŷn â'r cais eu cyflwyno i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad a nodir yn unol ag is-baragraff (e) neu (f), pa un bynnag sydd ddiweddaraf; a

(k) y cyfeiriad y dylid anfon sylwadau iddo.

(3) Rhaid i geisydd sy'n cael ei hysbysu o dan reoliad 32(4) ynghylch person o'r math a grybwyllir yn y rheoliad hwnnw gyflwyno hysbysiad i bob person o'r fath; a rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2), ond ni chaiff y dyddiad a nodir fel y dyddiad olaf y mae'r dogfennau ar gael i aelodau o'r cyhoedd edrych arnynt fod yn llai na 21 o ddiwrnodau yn ddiweddarach na'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad gyntaf."